UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfeydd Strwythurol a Buddosoddi Ewropeaidd
European Structural and Investment Funds

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Llywodraeth Cymru – Cronfa’r Môr A Physgodfeydd Ewrop 2014-2020

## Cwestiynau Cyffredin (FAQs)

## Cynllun Costau Safonol (SCS)

OGL © Hawlfraint y Goron
ISBN digidol 978-1-78964-651-1

## Cwestiynau Cyffredin (FAQs)

### Cyflwyniad

Mewn ymateb i'r adborth gan y Diwydiant Pysgodfeydd yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu datblygu a gweithredu Cynllun Costau Safonol yn benodol ar gyfer:

- Cymorth ar gyfer Buddsoddi ar Fyrddau Cychod Pysgota – Mesur 1.8 Erthygl 32: Iechyd a Diogelwch
- Buddsoddi ar Fyrddau Cychod – Mesur 1.22 Erthygl 42; Gwerth Ychwanegol ac Ansawdd Cynnyrch

Mae'r cynllun newydd wedi cael ei ddylunio i symleiddio'r broses o gyflwyno cais am offer iechyd a diogelwch, ac offer a fydd yn ychwanegu gwerth at ddalfa. Mae'r cynllun wedi cael ei ddylunio i helpu pysgotwyr yng Nghymru i gael arian grant ar gyfer yr offer yma'n haws drwy gynnig ffurflen gais ar-lein syml a rhestr sydd wedi'i phennu ymlaen llaw o'r offer sydd ar gael gyda chostau wedi'u safoni.

Bydd y Cynllun Costau Safonol yn ychwanegol at y cynlluniau sydd eisoes ar gael. Felly bydd y llwybr cais llawn yn dal ar gael i bysgotwyr arfordirol bach, yn ogystal â'r rheini sydd â chynigion ar gyfer prosiectau mwy.

Mae'r SCS yn diwallu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r EMFF drwy:

- <u>Hybu pysgodfeydd cynaliadwy, arloesol a chystadleuol sy'n effeithlon o ran adnoddau ac yn seiliedig ar wybodaeth</u>: Canolbwyntio ar arloesi a gwerth ychwanegol, gan hybu pysgodfeydd sy'n gystadleuol ac yn effeithlon o ran adnoddau, ac a fydd yn fwy gofalus, yn cynhyrchu llai o wastraff ac yn gwneud llai o ddifrod i ecosystemau morol
- <u>Meithrin dyframaeth cynaliadwy, arloesol a chystadleuol sy'n effeithlon o ran adnoddau ac yn seiliedig ar wybodaeth</u>: Ar gyfer sector dyframaeth sy'n gystadleuol ac yn effeithlon o ran adnoddau; er mwyn helpu busnesau o'r fath i ddod yn economaidd hyfyw ac yn gystadleuol

Amcanion y cynllun ydy cynyddu buddsoddiad a gwella diogelwch y diwydiant pysgota, a chynyddu'r gwerth sy'n cael ei ychwanegu at bysgod Cymru.

## Beth sydd ar gael drwy'r grant?

Mae'r grant yn cynnwys buddsoddi mewn offer iechyd a diogelwch ac offer a fydd yn ychwanegu gwerth at ddalfa. Mae'r offer sydd wedi cael ei nodi ymlaen llaw yn cynnig manteision clir a mesuradwy i'ch busnes pysgota.

Mae cost safonol wedi cael ei nodi ar gyfer pob eitem, ac mae dros 60 eitem ar gael.

Mae rhestr lawn o'r eitemau mae modd gwneud cais amdanynt drwy bob ffurflen gais ar gael yn y Rhestr o Eitemau Cymwys, ar wefan Llywodraeth Cymru:

https://beta.llyw.cymru/cynllun-costau-safonol-pysgodfeydd-rhestr-o-eitemau-syn-gymwys-i-gael-arian

O ran **Potiau Cregyn Pysgod** – mae'r rhain ond yn gymwys i hawlio amdanynt os yw'r cwch yn berchen ichi neu'n rhannol berchen ichi.

## Beth ydy Cost Safonol?

Mae cost safonol wedi cael ei chyfrifo ar gyfer pob eitem sydd ar gael drwy'r SCS. Mae hyn yn golygu y byddwch chi'n gwybod yn union faint o grant y byddwch chi'n ei gael (os ydy'r cyfanswm o fewn y terfynau cyllido ac os ydy'r cais yn llwyddiannus) pan fyddwch chi'n gwneud cais am y grant.

Mae hefyd yn golygu na fydd yn rhaid ichi gyflwyno dyfynbrisiau am eitemau cyn eu prynu, ac ni fydd yn rhaid ichi gynnig cynllun prosiect ar gyfer eich buddsoddiad.

Mae'r grant wedi'i wneud yn gyfan gwbl bron o gyfraniadau gan yr UE, cyd-gyllid i gronfeydd yr UE gan Lywodraeth Cymru, ac arian o adrannau ac asiantaethau llywodraeth eraill, a nifer o ffynonellau eraill. **Rhaid i chi sicrhau gweddill yr arian o gronfeydd nad ydyn nhw'n rhai cyhoeddus.** Os defnyddir arian cyhoeddus arall o'r UE neu'r DU i gefnogi costau buddsoddiad, ni fyddant yn cael eu hystyried yn erbyn y grant EMFF.

## Beth ydy'r terfyn cyllido?

Y grant isaf fesul cais ydy £800 a'r grant cyffredinol mwyaf ydy £24,000.

Bydd perchnogion cychod sydd â hyd o 11.99 metr neu lai yn denu cyfradd grant o 80%, a’r cychod hynny sy’n 12 metr (gan gynnwys y rhai hynny sy’n defnyddio gêr pysgota llusg) yn denu cyfradd grant o 50%.

Ni fydd ceisiadau nad ydynt yn cyrraedd y gwerthoedd grant isaf perthnasol yn cael eu hystyried.

Sylwer: **Os caiff eich cais ei gymeradwyo, mae’n rhaid prynu’r holl eitemau y gwnaed cais amdanynt er mwyn i chi hawlio’r cyllid. Os na fyddwch chi’n prynu’r holl eitemau a gafodd eu cymeradwyo ar eich cais, bydd eich hawliad yn cael ei wrthod ac ni fyddwch yn cael unrhyw arian am yr eitemau rydych chi wedi’u prynu.**

## Sut mae dechrau ar y broses o wneud cais?

Yn gyntaf bydd angen i chi gofrestru gyda Phorth y Llywodraeth i gael rhif cofrestru Porth y Llywodraeth. Bydd wedyn angen i chi gofrestru â RPW Ar-lein a chreu cyfrif RPW Ar-lein. Mae canllaw ar y broses gofrestru o’r enw RPW Ar-lein: Cychwyn Arni, ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

https://beta.gov.wales/rpw-online-getting-started

## Beth ydy’r meini prawf cymhwysedd i wneud cais?

I fod yn gymwys i wneud cais, mae’n rhaid i chi:

- Fod yn berchennog cwch pysgota sydd ar gofrestr fflyd pysgota'r Undeb Ewropeaidd (UE), ac sy’n cael ei weinyddu gan Lywodraeth Cymru o borthladd yng Nghymru.
- Bod yn bysgotwr arfordirol ar raddfa fach (sydd ddim yn defnyddio offer pysgota a dynnir).
- Bod yn berchen ar gwch sydd â hyd cyffredinol o mwy na 11.99 metr (yn cynnwys y rhai sydd yn defnyddio offer pysgota a dynnir).
- Bod wedi bod yn pysgota ar y môr am o leiaf 60 diwrnod yn ystod y ddwy flynedd calendr cyn cyflwyno eich cais.
- Bod â throsiant busnes o £200,000 neu lai yn ystod y flwyddyn ariannol ddiweddaraf.

**Sylwer**: Er mwyn derbyn y taliad SCS mae’n rhaid i chi gyflwyno llythyr gan eich cyfrifydd yn cadarnhau trosiant eich busnes ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiweddaraf a bod cyfrifon ar gael pan fyddwch chi’n cyflwyno

eich hawliad. Ar ôl derbyn eich cais bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau eich bod wedi bodloni'r meini prawf ar gyfer gweithgarwch pysgota. Os bydd y gwiriadau'n cadarnhau nad ydych wedi bodloni'r meini prawf, byddwn yn gofyn i chi gyflwyno prawf dogfennol i gadarnhau eich bod wedi bodloni'r gofyniad gweithgarwch pysgota. Mae dogfennau derbyniol wedi ei cynnwys:

- Nodiadau gwerthu neu dderbynebau prynwyr
- Manylion Daliadau Trwydded Pysgod Cregyn (MSAR)
- Cofnodion Llyfr Log
- Cofnodion Pysgod Asgellog (Cychod Pysgota 10m a llai)
- Dyddiadur

## Sut gallwch chi wneud cais a hawlio am y Cynllun Costau Safonol?

Mae ceisiadau a hawliadau ar gyfer y SCS yn cael eu cyflwyno drwy RPW Ar-lein. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar ôl i’r ffenestr ymgeisio gau.

Os bydd eich cais yn llwyddiannus cynigir contract i chi ac mae’n rhaid ei dderbyn cyn pen 30 diwrnod.

Bydd gennych chi wedyn hyd at 120 diwrnod o’r dyddiad pan gaiff y contract ei gynnig i brynu’r eitemau, a chyflwyno hawliad am yr eitem(au) a brynwyd.

Rhaid i chi dderbyn eich contract cyn prynu eich eitemau. Bydd hefyd angen i chi gyflwyno copïau wedi’u sganio o’r anfonebau perthnasol drwy ddefnyddio eich cyfrif RPW Ar-lein neu gyflwyno’r anfonebau gwreiddiol yn eich Swyddfa Ranbarthol RPW.

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, mae’n rhaid i chi brynu’r **HOLL** eitemau sydd wedi’u rhestru yn eich contract. Bydd methu â gwneud hynny’n golygu nad ydy'r cais yn gymwys. Rhaid i chi gyflwyno un hawliad ar gyfer cyfanswm y grant, a chyflwyno’r holl anfonebau ar gyfer yr eitemau sydd wedi cael eu prynu ar yr un pryd, ar ôl prynu’r eitem olaf.

## Ga’i gyflwyno copi papur o'r anfonebau?

Cewch. Gewch chi gyflwyno'r anfonebau papur gwreiddiol drwy fynd i’ch Swyddfa Ranbarthol RPW. Byddan nhw’n cael eu sganio a’u rhoi yn ôl i chi yn ystod eich ymweliad.

**Pam mae gen i 120 diwrnod i brynu’r eitemau a chyflwyno’r hawliad?**

Rydyn ni’n cynnal nifer o ffenestri ymgeisio ar gyfer y Cynllun ac mae’n rhaid i’r holl eitemau gael eu prynu a bod hawliad yn cael ei gyflwyno amdanynt cyn i’r broses ddechrau ar gyfer y ffenestr ymgeisio nesaf.

Mae’n rhaid i’r holl eitemau fod ar gael i’w harchwilio pan fyddwch chi’n cyflwyno eich anfonebau. Efallai byddwch chi’n cael eich dewis ar gyfer

archwiliad cyn i’r taliad gael ei wneud. Os na fydd yr eitemau ar gael i’w harchwilio, ni fydd taliad yn cael ei wneud a bydd eich **holl hawliad yn cael ei wrthod**.

**Ydw i’n gallu tynnu fy nghais yn ôl ar ôl iddo gael ei gyflwyno?**

**A. Ydych, yn ystod ffenestr ymgeisio sydd ar agor**

Gallwch dynnu eich cais yn ôl drwy gysylltu â’r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 a gofyn am gael tynnu eich cais yn ôl.

Cewch gyflwyno cais newydd cyn i’r ffenestr gau.

**B. Cewch, ar ôl i ffenestr ymgeisio gau OND cyn i chi dderbyn y contract.**

Gallwch dynnu eich cais yn ôl drwy gysylltu â’r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 a gofyn am gael tynnu eich cais yn ôl.

Os ydych chi wedi dewis yr eitemau anghywir neu os ydych chi wedi newid eich meddwl am yr eitemau rydych chi wedi’u dewis neu os ydych chi wedi methu eitemau roeddech chi eisiau eu dewis, mae’n rhaid i chi dynnu eich cais yn ôl a gwneud cais arall yn y ffenestr nesaf.

Cofiwch mai hyn a hyn o gyllid sydd ar gael dan y cynllun ac os caiff ei ddefnyddio, efallai na fydd rhagor o ffenestri ymgeisio ar gael.

**C. Ar ôl i’m cais gael ei gymeradwyo ac rwyf wedi derbyn contract ar gyfer y Cynllun Costau Safonol, a oes modd newid yr eitemau roeddwn i wedi gwneud cais amdanyn nhw?**

Nac oes. Ni allwn dderbyn newidiadau i’r mathau o eitemau rydych chi wedi gwneud cais amdanyn nhw.

Gallwch brynu'r eitemau os ydy'r fanyleb yn uwch (gwell), ond byddwch chi'n cael yr un faint o gyllid grant. Dyma'r unig newid a ganiateir.

**Pryd fydd y ffenestri ymgeisio nesaf yn agor?**

Ar ôl i'r ffenestr gau, bydd gweddill y cyllid sydd heb ei ddyrannu yn cael ei asesu. Os bydd digon o gyllid ar gael, cyhoeddir ffenestr arall maes o law.

**Oes rhagor o wybodaeth ar gael?**

Mae'r ffurflen gais a rheolau a chanllawiau'r cynllun ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.
https://beta.llyw.cymru/cymorth-ar-gyfer-buddsoddi-mewn-iechyd-diogelwch-cychod-pysgota-eitemau-am-bris-safonol